Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Julie James, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

Llywodraeth Cymru

27 Hydref 2015

Annwyl Huw a Julie

**Cais am wybodaeth i lywio gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2016-17**

Diolch i chi am gytuno i fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes ar 14 Ionawr i drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17.

***Yr adroddiad ar gyllideb y llynedd***

Fel y llynedd, hoffai'r Pwyllgor Menter a Busnes gael y llinellau gwariant unigol yn y gyllideb ar gyfer eich portffolio chi sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn.

***Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu***

O ran yr ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu sydd o fewn eich portffolio chi, ac sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael gwybodaeth mewn cysylltiad â'r canlynol:

- Manylion am y costau sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu 2016-17 a / neu unrhyw waith sy'n cael ei wneud i asesu costau o'r fath;
- A ellir cyflawni'r ymrwymiadau hyn o fewn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer cyllideb y portffolio a manylion am unrhyw feysydd lle mae fforddiadwyedd yn destun pryder; a
- Gwybodaeth ynglŷn â sut y bwriedir monitro a gwerthuso'r graddau y llwyddwyd i gyflawni'r ymrwymiadau yn eich portffolios, a'r canlyniadau cysylltiedig, er mwyn dangos gwerth am arian.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddBusnes@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEcon@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEcon
0300 200 6565

*Polisïau allweddol*

Yn dilyn ein hymchwiliadau diweddar ac ein gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft y llynedd, hoffai'r Pwyllgor yn benodol gael gwybodaeth am y polisïau a'r materion canlynol:

- Cymorth i helpu pobl, yn enwedig pobl ifanc, i gael gwaith, gan gynnwys Twf Swyddi Cymru a Hyfforddeiaethau;
- Prentisiaethau a chynlluniau dysgu yn y gwaith eraill;
- Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a chymorth arall a anelir at bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET);
- Datblygu sgiliau, y Gronfa Blaenoriaethau Sector a chyllid sy'n gysylltiedig â'r Datganiad Polisi ar Sgiliau;
- Manylion y cyllid Ewropeaidd sydd ar gael ar gyfer pob un o'r pwyntiau uchod;
- Effaith y dyraniadau yn 2014-15 a 2015-16 ar golegau addysg bellach, a manylion am yr ymgysylltu a fu gyda'r sector i drafod eu dyraniadau ar gyfer 2016-17; effaith blaenoriaethu'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-19 mlwydd oed; a'r effaith ar ddysgu rhan-amser oedolion mewn colegau addysg bellach;
- Y gyllideb ar gyfer Gyrfa Cymru a'r goblygiadau o ran cylch gorchwyl y sefydliad;
- Cyllid ar gyfer *Gwyddoniaeth i Gymru*, gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi sgiliau STEM;
- Hyrwyddo a chefnogi entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc;
- Y gyllideb ar gyfer addysg uwch, yn enwedig goblygiadau unrhyw newidiadau i'r cyllid ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; asesiad wedi'i ddiweddaru o incwm ar gyfer y sector addysg uwch; a'r modelu diweddaraf o ran costau, fforddiadwyedd a gwerth am arian y Grant Ffioedd Dysgu;
- Cefnogaeth i'r polisi Ehangu Mynediad, gan gynnwys cyllidebau ar gyfer Grant Dysgu a Lwfans Cynhaliaeth Addysg Llywodraeth Cymru.

Ar gyfer pob polisi, fel y bo'n briodol, hoffai'r Pwyllgor weld:

- Manylion am gostau a / neu unrhyw waith a wnaed i asesu'r gost o roi'r polisïau hyn ar waith yn ystod cyfnod y gyllideb ddrafft (2016-17);
- Gwybodaeth yn ymwneud â sut y caiff y dulliau o weithredu'r polisi, a'r canlyniadau cysylltiedig, eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.

Rydym hefyd yn awyddus i weld:

- sut y mae cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac ystyriaeth i'r Gymraeg wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.
- y modd y mae'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru o dan y *Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,* yn benodol sut y cafodd y dyletswyddau o dan y Ddeddf eu hystyried wrth baratoi'r gyllideb ddrafft, a sut y mae'n mynd i'r afael â'r angen i wneud y gorau o gyfraniad ... . [Llywodraeth Cymru] i gyflawni pob un o'r amcanion lles.

### *Gwariant ataliol*

Mae gennym ddiddordeb, fel yr oedd gennym y llynedd, mewn ystyried gwariant ataliol fel rhan o'n gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Y diffiniad o wariant ataliol yr ydym yn ei fabwysiadu at y diben hwn yw:

> *...gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac sy'n lleddfu'r galw am wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar, a thrwy hynny sicrhau gwell canlyniadau a gwerth am arian.*

Gan gofio'r diffiniad hwnnw, hoffai'r Pwyllgor gael gwybodaeth am:

- Y gyfran o'r gyllideb Addysg a Sgiliau a ddyrennir ar gyfer camau gwariant ataliol;
- Manylion y polisïau neu raglenni penodol yn eich portffolio sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn y bwriedir iddynt fod yn ataliol (gan gynnwys: cymorth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; cymorth i helpu pobl yn ôl i waith, a datblygu sgiliau); a
- Sut y caiff gwerth am arian rhaglenni o'r fath ei werthuso, gan ganolbwyntio'n arbennig ar beth yw'r mewnbynnau penodol a'r canlyniadau a fwriedir.

### *Darparu ar gyfer deddfwriaeth*

Byddem hefyd yn hoffi gweld:

- Gwybodaeth am y graddau y mae unrhyw ddeddfwriaeth Gymreig yn y Pedwerydd Cynulliad yn debygol o gael unrhyw effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar eich portffolios yn y flwyddyn ariannol 2016-17, yn arbennig y *Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014* a *Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015*.
- Costau a goblygiadau ariannol unrhyw is-ddeddfwriaeth, lle mae'r rhain yn sylweddol ac yn effeithio ar y gyllideb yn 2016-17.

- Gwybodaeth am effaith unrhyw ddeddfwriaeth y DU yn eich meysydd portffolio ar y gyllideb, gan gynnwys unrhyw oblygiadau posibl ym *Mil Cymru drafft*.

Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth uchod erbyn 17 Rhagfyr 2015.

Gyda llawer o ddiolch am ein cynorthwyo gyda'n gwaith craffu.

Yn gywir

William Graham AC

Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes